



Eich cyf/Your ref Petition P-05-1011
Ein cyf/Our ref KW/04526/20
Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@llyw.cymru

19 Awst 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 12 Awst ynghylch Deiseb P-05-1011 Gwersi rhithwir ar-lein dan arweiniad athrawon ar gyfer pob plentyn ysgol.

Ar 9 Gorffennaf cyhoeddais ein bwriad i sicrhau y bydd yr ysgolion ar agor i bob disgybl ym mis Medi. Mae'r bwriad hwnnw'n unol â'r cyngor a gafwyd gan Grŵp Cynghori Technegol Cymru, ac mae'n amodol ar weld gostyngiad cyson parhaus yn y nifer o achosion o COVID-19 yn y gymuned.

I helpu ysgolion i baratoi ar gyfer y senario honno ym mis Medi, mae canllawiau manwl wedi'u cyhoeddi:

<https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19>

<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19>

Yn ychwanegol at hynny, mae gwaith cynllunio'n cael ei gynnal i ymdopi ag amrediad o senarios a fyddai'n cynnwys cau ysgolion yn rhannol neu'n llwyr, os bydd angen inni wneud hynny o dan yr amgylchiadau penodol. Mae swyddogion wedi bod yn cydweithio â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector i ddatblygu canllawiau ar ddefnyddio modelau dysgu cyfunol a allai gynnwys addysg wyneb yn wyneb a darpariaeth ar-lein

<https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/datblygu-dulliau-i-geflogi-dysgu-o-bell/>

Mae'r Consortia Rhanbarthol wedi datblygu modelau ac enghreifftiau ar ddarparu dysgu cyfunol hefyd. Mae'r rheini ar gael i'r holl Awdurdodau Lleol ac i bob ysgol i'w cefnogi i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

barhau i ddarparu dysgu cyson ac o safon i bob dysgwr yng Nghymru, pe byddai angen defnyddio'r llwybrau hynny. Yr Awdurdodau Lleol a'r ysgolion sy'n parhau i fod yn gyfrifol am y ddarpariaeth dysgu, ac felly eu swyddogaeth nhw yw sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n ateb anghenion eu dysgwyr.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education